YSGOL GYMRAEG BRYN Y MÔR

# Helpu'ch Plentyn gyda Mathemateg

YSGOL GYMRAEG BRYN Y MÔR




## Adio

Bydd disgyblion yn dechrau defnyddio 'llinellau rhifau gwag' eu hunain, gan gychwyn â'r rhif uwch a chyfrif ymlaen.


Dechreuwch gyfrif ymlaen fesul deg ac un.

34 + 23 = 57





Bydd hyn yn helpu plant i adio'n fwy effeithlon drwy adio'r digidau mewn un cam (gan ddefnyddio'r ffaith gyfarwydd 4 + 3 = 7)


34 + 23 = 57




Wedyn byddant yn adio'r degau mewn un cam a'r unedau mewn un cam.


34 + 23 = 57




✓ Gall pontio drwy ddeg wneud disgyblion yn fwy effeithlon.

37 + 15 = 52




## Parau sydyn hyd at 10

Gwnewch set o 12 cerdyn yn dangos y rhifau o 0 i 10, ond gyda dau 5.
Os ydych yn dymuno, gallwch ddefnyddio cardiau chwarae.


- Shyfflwch y cardiau a'u rhoi i'ch plentyn.
- Amserwch faint mae'n ei gymryd i ganfod pob pâr hyd at 10.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 0 | 10 | 2 | 8 | 4 | 6 |
| 1 | 9 | 3 | 7 | 5 | 5 |

Gwnewch hyn eto yn nes ymlaen yn yr wythnos er mwyn gweld a all eich plentyn guro'r amser blaenorol.

**Dyfalu'r siâp**

- Meddyliwch am siâp 2D (triongl, cylch, petryal, sgwâr, pentagon neu hecsagon). Gofynnwch i'ch plentyn ofyn cwestiynau er mwyn canfod pa siâp ydyw.
- Gallwch ateb Ie neu Na yn unig. Er enghraifft, gallai eich plentyn ofyn: Oes ganddo 3 ochr? Neu: Ydy'r ochrau'n syth?
- A all ddyfalu eich siâp gan ddefnyddio llai na phum cwestiwn?
- Wedyn gofynnwch i'ch plentyn ddewis siâp er mwyn i chi gael gofyn y cwestiynau.



**Dyma amryw gemau rhifau y gallwch annog eich plant i'w chwarae – beth am chwarae fel teulu?**

**Ffeithiau rhifau**

Bydd angen dis 1-6.

- ♦ Cymerwch eich tro. Rholiwch y dis. Pa mor sydyn gallwch ddweud y rhif y mae angen ei adio at y rhif ar y deis er mwyn gwneud 10, e.e.



6 a _

- ♦ Os ydych yn iawn, rydych yn sgorio pwynt.
- ♦ Y cyntaf i gyrraedd 10 sy'n ennill.

Gallwch ymestyn y gweithgaredd hwn drwy wneud i'r ddau rif adio i wneud 20 neu 50.


**Mathemateg siopa**

Ar ôl bod yn siopa, dewiswch 6 eitem sy'n costio llai na £1 yr un. Gwnewch label pris ar gyfer pob un, e.e. 39c, 78c.

Shyfflwch y labeli. Wedyn gofynnwch i'ch plentyn wneud un neu fwy o'r rhain:

- ♦ Rhoi trefn ar y labeli, gan gychwyn â'r isaf.
- ♦ Dweud pa bris sy'n odrif a pha bris sy'n eilrif.
- ♦ Adio 9c at bob pris yn eu pen.
- ♦ Tynnu 20c oddi ar bob pris yn eu pen.
- ♦ Dweud pa ddarnau arian i'w defnyddio i dalu am bob eitem.
- ♦ Dewis unrhyw ddwy eitem, a chanfod cyfanswm y gost.

- Cyfrifo'r newid o £1 ar gyfer pob eitem.





**Llinell syth**

Dewiswch 4 tegan a'u rhoi ar y bwrdd yn nhrefn eu hyd. Defnyddiwch bren mesur i fesur pob tegan i'r cm agosaf.

**Tynnu**


Bydd disgyblion yn dechrau defnyddio sgwariau cant a llinellau rhifau gwag i'w helpu i gyfrifo.
Cyfri'n ôl
Dechrau drwy gyfri'n ôl fesul deg neu un.

47 - 23 = 24





Wedyn helpu disgyblion i ddod yn fwy effeithlon drwy dynnu'r uned mewn un cam (gan ddefnyddio'r ffaith gyfarwydd 7 – 3 = 4).

47 – 23 = 24




Tynnu'r degau mewn un cam a'r unedau mewn un cam.


47 - 23 = 24




**Cyfrif ymlaen**

Os yw'r rhifau yn y cyfrifiad yn agos at ei gilydd neu'n agos at luosrifau o 10, 100 ac ati, gall fod yn fwy effeithlon cyfrif ymlaen. Cyfrwch ymlaen o 47 i 82 mewn camau o 10 a chamau o 1. Dylai'r llinell rhifau barhau i ddangos 0 fel bod disgyblion yn gallu croesi allan yr adran o 0 at y rhif lleiaf. Wedyn gallant gysylltu'r dull hwn â 'thynnu i ffwrdd'.


82 - 47





## Lluosi

Gellir dangos adio sawl gwaith ar linell rhifau.


5 x 3 = 5 + 5 + 5



Dylai disgyblion wybod fod 3 x 5 yn rhoi'r un ateb â 5 x 3. Gellir dangos hyn ar y llinell rhifau hefyd.




Dylai disgyblion allu modelu cyfrifiad lluosi gan ddefnyddio arae. Bydd y wybodaeth hon yn help iddynt ddatblygu'r dull grid.





**Rhannu**


Bydd disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o rannu ac yn defnyddio nodiadau bras i'w helpu i gyfrifo.


**Rhannu'n hafal**

Rhennir 6 oren rhwng 2 o bobl. Sawl un mae pawb yn ei gael?




**Grwpio neu dynnu sawl gwaith**




Tynnu sawl gwaith gan ddefnyddio llinell rhifau neu far gleiniau.



Defnyddio symbolau i gynrychioli rhifau nad ydym yn eu gwybod er mwyn cwblhau hafaliadau gan ddefnyddio gweithrediadau gwrthdro.

$\square \div 2 = 4$

4 x 2 = 8
2 x 4 = 8
8 ÷ 2 = 4
8 ÷ 4 = 2

$20 \div \triangle = 4$

$\square \div \triangle = 4$